Cymorth Cynllunio Cymru
Planning Aid Wales

Addroddiad Blynyddol 2010 - 2011



Cymorth Cynllunio Cymru
Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2010 i Fawrth 2011

Cynnwys **Tudalen**

Rhagair		**2**
Gwaith achos		**3**
Gweithio gyda chymunedau		**5**
Gweithio gyda phartneriaid		**7**
Adeiladu'r sefydliad		**8**
Edrych ymlaen		**11**
Atodiad 1	**Gwybodaeth ariannol 2010/11**	**12**
Atodiad 2	**Cyfarwyddwyr a staff**	**13**

Cymorth Cynllunio Cymru – yn gweithio tuag at system gynllunio fwy teg

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk
Cyngor ar ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Llinell Gymorth Cyngor: 02920 625 000
Ymholiadau cyffredinol: 02920 625 009

Elusen gofrestredig 1000115
Cwmni cyfyngedig drwy warant 2526875 (Cymru)

ISBN: 978-0-9567727-0-1

Llun y clawr: Goleudy Ynys Lawd ym Môn

RTPI
mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rhagair gan Gadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru

Mae hi wedi bod yn flwyddyn drawiadol yn natblygiad Cymorth Cynllunio Cymru.

Mewn hinsawdd economaidd anodd iawn, mae ein gwasanaethau wedi mynd o nerth i nerth, tra'n bod wedi llwyddo i gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Digwyddodd hyn tra bo gwasanaethau cymorth cynllunio eraill yn wynebu toriadau llym yn eu gwasanaethau gweithredu a'u cyllid. Rydym yn ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth parhaus amhrisiadwy.

Teimlaf bod Cymorth Cynllunio Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn yn dangos gwerth ein gwasanaethau ac edrychaf ymlaen i ddatblygu'r gwaith caled hwn ac i weithio yn nghyfnod newydd Llywodraeth Cymru.

Rwy'n hapus iawn i groesawu Sioned Pearce, ein Swyddog Datblgyu ac Hyfforddi newydd, ac rwy'n croesawu'r syniad o recriwtio Cynorthwyydd Cynllunio i gefnogi'n Rheolwr Prosiect ac Achosion yn ei waith hanfodol. Fel cynllunydd mewn awdurdod lleol rwy'n gweld drosof fy hyn, yn ddyddiol, y galw am gyngor cynllunio annibynnol a diduedd. Mae fy nghydweithwyr a minnau'n ffodus i allu galw ar wasanaethau Cymorth Cynllunio Cymru ac i gydweithio â hwy.

Un o'n cyflawniadau mwyaf eleni yw'r datblygiad a'r defnydd o'n rhwydwaith o wirfoddolwyr. Rwy'n falch iawn y bydd cynrychiolaeth dda ohonynt yn ein Cyfarfod Blynyddol i roi mewnwelediad i beth o'r gwaith anhygoel maent wedi bod yn ei wneud.

Wrth gwrs, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth Llinell Gymorth, y mae llawer yn dibynnu arni, ond rwy'n teimlo balchder mawr yn rhai o'r gwasanaethau a'r cynghorau cynllunio gwych a mwy gweithredol rydym wedi gallu eu darparu eleni. Mae rhai o'r uchafbwyntiau neilltuol yn cynnwys paratoi canllawiau ar Ddatganiadau Mynediad a rhaglen barhaus o hyfforddiant cynllunio ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned, yn cynnwys paratoi cyfres o ddeunyddiau dysgu-o-bell.

Mae fy niolch yn mynd i dîm staff Cymorth Cynllunio Cymru, fy nghyd-gyfarwyddwyr a'r gwrifoddolwyr am eu holl waith caled eleni.

Lucie Taylor

Cadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru

Gwaith achos

Pier Fictorianaidd Llandudno

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyngor o ansawdd uchel ar Linell Gymorth, gyda chymorth gan wirfoddolwyr sy'n gynllunwyr cymwys. Rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2011 derbyniasom bron i bedwar cant o alwadau yn gofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth ar ystod eang o faterion cynllunio. Hefyd rhoesom gymorth i 26 grŵp cymunedol gyda chyfanswm o 730 o aelodau dros y flwyddyn.

Rydym yn defnyddio meini prawf cymhwyster i sicrhau bod ein hadnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio ar gyfer y bobl sydd â'r angen mwyaf amdanynt. Nid ydym yn gallu cynorthwyo pobl sy'n debygol o elwa'n ariannol o benderfyniad cynllunio – cyfeirir y bobl hyn at restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig. Dengys y diagramau isod gymhwyster ein cleientiaid dros y flwyddyn ddiwethaf, (cleientiaid Lefel 3 yw'r rhai mwyaf cymwys) ynghyd â'r mathau o gwestiynau a dderbyniwyd.



Math o ymholiad



Cymhwyster cleientiaid

Esiamplau o astudiaethau achos

Mae Llinell Gymorth Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar amrywiaeth eang o faterion cynllunio, yn cynnwys Cynlluniau Datblygiad Lleol, hawliau datblygiadau sydd â chaniatâd, ceisiadau cynllunio, apeliadau cynllunio a llawer mwy.

Fel enghreifftiau, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym:

- *wedi cefnogi dau deulu o sipsiwn a Theithwyr yn ne Ddwyrain Cymru.*
- *wedi cynorthwyo grŵp yn Abertawe i ddeall cynnig i adeiladu bloc newydd o fflatiau.*
- *wedi cynghori cyngor cymuned ym Maesteg ar sut i wneud eu sylwadau ar ganolfan geffylau arfaethedig, yn berthnasol ac effeithiol.*
- *esbonio wrth Mrs X yn Rhondda Cynon Taf nad oes rheol genedlaethol ar leiafswm gwahanu pellter rhwng tai mewn datblygiadau newydd.*
- *wedi darparu gwybodaeth ar broses Adran 106 wrth Mr W o'r Wyddgrug oedd ag anhawster yn deall cytundeb ar ei gais am gartref newydd.*
- *wedi annog Mrs K i gael cyngor cyfreithiol cyn mynd i'r uchel Lys i herio ar fater yn ymwneud â grîn pentre yng Nghaerdydd.*
- *wedi helpu Mr H, sydd â dyslecsia, i strwythuro ei sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd.*
- *wedi esbonio proses genwud penderfyniadau y pwyllgor wrth Mr J o wynedd, oedd yn pryderu na fyddai ei sylwadau ar gaid cynllunio cael eu hystyried.*

Mae'n Llinell Gymorth yn wasanaeth gwerthfawr a ddefnyddir gan asiantaethau cyfeirio ac eraill, fel a welir yn y dyfyniad hwn gan Angela Burns AC am y'r sesiwn agoriadol Ymholiad Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Gynllunio, Mehefin 2010:

"Hoffwn roi ar goedd fy niolch i Gymorth Cynllunio Cymru, oherwydd mae fy staff yn yr etholaeth wedi cysylltu â'ch sefydliad ar nifer o achlysuron ynghylch pobl sydd wedi bod yn ymbalfalu a ddim yn gwybod pa ffordd i fynd. Rydych chi a galluogwr cartrefi gwledig – os byth y gallwch ddod o hyd i un – yn ddau o'r sefydliadau mwyaf gwerthfawr sydd gennym."

Gwrifoddolwyr gwaith achos

Mae gennym dros ddeugain o wirfoddolwyr gwaith achos sy'n rhoi o'u hamser i helpu aelodau'r cyhoedd yng Nghymru i dramwyo'r broses gynllunio.

Pam mae gweithwyr achos yn gwneud hyn?

John Bowers: *"Symudais o rheolaeth datblygiad i bolisi yn 2006. Mae gwaith achos cymorth cynllunio yn fy helpu i gadw i fyny â gwybodaeth gweithdrefnau. Mae gwaith achos gyda siaradwyr Cymraeg yn fy helpu i gadw fy Nghymraeg technegol a'm sgiliau i esbonio materion cynllunio."*

Helen Ridgway: *"Nid oedd y cynghorydd tref yr oeddwn yn gweithio â hi yn ymwybodol o Gymorth Cynllunio Cymru nes i fater yn ei chymuned leol godi. Cyfeiriodd yr Arolygiaeth Cynllunio hi atom ni. Roedd yn ddiolchgar iawn am y cyngor a roddais, oedd yn caniatáu iddi ddeall sgôp o'r hyn y gallai neu na allai ddelio ag ef, a gobeitihio, rhoi'r taclau, yr hyder ac, yn anffodus, yr 'iaith' i gyfathrebu â'r adran gynllunio ac Asiantaeth yr Amgylchedd. I mi, cymerodd yr achos cyfan lai na dwy awr i'w ddatrys a rhoddodd sialens i mi nad oeddwn wedi delio ag ef yn fy ngwaith bob dydd. Roedd yn brofiad cadarnhaol dros ben."*

Lucie Taylor: *"Mae wedi bod yn wych i helpu pobl pentref Bontgoch yng Ngheredigion. Mae diddordeb ganddynt mewn cynllun fferm wynt sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio Seilwaith felly mae wedi bod yn gyfle ardderchog i mi i ddysgu am y prosesau newydd i gyd."*

Gweithio gyda chymunedau

Gwirfoddolwr Hannah Machin yn helpu gyda hyfforddiant Cynghorau Cymuned yng Nghasnewydd, Ionawr 2011

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn anelu at helpu cymunedau lleol i ddeall a dylanwadu ar y system gynllunio Gymreig yn fwy effeithiol. Ein bwriad yw adeiladu gallu a gwybodaeth fel y gall cymunedau helpu eu hunain. Rydym yn canolbwyntio'n enwedig ar annog cymunedau ymylol i gymryd mwy o ran trwy waith allgymorth, hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gydag amrediad o grwpiau sydd ddim, yn draddodiadol, yn ymwneud â'r system gynllunio, yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr, Grwpiau Mynediad lleol a busnesau bach iawn. Rydym hefyd wedi traddodi nifer o sesiynau hyfforddi ac adeiladu gallu i gynghorwyr tref a chymuned a grwpiau cymunedol, a pharhau ein gwaith i gynorthwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ymgysylltu â chymunedau lleol yng nghamau diweddarach paratoadau Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn gweithio gydag ystod o grwpiau targed gyda'r bwriad o adeiladu eu gallu i gael budd lleol o'r system gynllunio. Mae'r rhai a elwodd yn cynnwys ffermydd bach, busnesau bach iawn, grwpiau lleiafrifol du ac ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn, pobl anabl, tenantiaid a chymdeithasau trigolion, grwpiau diwylliannol Cymreig ac ymddiriedolaethau datblygu lleol.

Deunyddiau hyfforddi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

Yn dilyn ein rhaglen hyfforddi peilot ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn 2007/08, rydym wedi derbyn cyllid pellach i gynhyrchu cyfres o ddeunyddiau dysgu-o-bell i adeiladau gallu ar lefel isaf

llywodraeth leol. Cafodd y deunyddiau hyfforddi eu treialu gydag adborth calonogol iawn a bydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim yn fuan o'n gwefan.

Ardaloedd Cymunedau Yn Gyntaf

Amcan Cymorth Cynllunio Cymru yw ymgysylltu â, a chefnogi unigolion a grwpiau mewn ardaloedd difreintiedig. Cawsom gyfarfod â thîm polisi Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru hanner ffordd trwy 2010 i drafod

llwybrau i ymgysylltu â phobl yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig yn ystod paratoadau Cynllun Datblygu Lleol. Rydym hefyd wedi gweithio i hyrwyddo ein gwasanaethau mewn digwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf, ar wefan rhwydwaith cefnogi ac ym mwletin y cydlynwyr.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf CwmNi yn Nhreherbert i baratoi cais y Loteri Fawr am hyfforddiant cymunedol ar geisiadau cynllunio. Er nad oedd y cais hwnnw'n llwyddiannus, mae'r gwaith o ymgeisio yn y dyfodol wedi ei osod gyda phartneriaeth â CwmNi.

Ein amcan yw parhau i wneud cysylltiadau â Chymunedau yn Gyntaf ar lefel rhaglen strategol er mwyn hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwaith.

Gweithio gyda Grwpiau Mynediad

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cwblhau dau brosiect sydd wedi cryfhau ein cysylltiadau â Grwpiau Mynediad ledled Cymru. Yn gyntaf, cawsom gomisiwn gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid Grwpiau Mynediad i gyhoeddi canllawiau ar elfen hygyrchedd mewn Datganiadau Mynediad a Dylunio. Fe'i cyhoeddwyd yn Chwefror ac mae'r cyhoeddiad wedi darparu canllawiau ar gymhwyso egwyddorion dylunio cynhwysol fel bo datblygiadau newydd yn hygyrch i gymaint o bobl â phosibl.

Yn ail, cawsom gomisiwn gan Anabledd Cymru i draddodi modiwl hyfforddi cynllunio ar gyfer cynulleidfa o Grwpiau Mynediad a chynllunwyr fel rhan o'r prosiect Way to Go. Traddodwyd y cwrs un-dydd yn Nhachwedd 2010 yng Nghasnewydd ac fe roddodd gyflwyniad cynhwysfawr i'r broses gynllunio, yn delio â'r Cynlluniau Datblygu Lleol, y broses o geisiadau cynllunio a datganiadau Mynediad a Dylunio. Cafwyd derbynaid da i'r hyfforddiant ac rydym nawr wedi cael comisiwn i draddodi mwy o fodylau hyfforddi Way to Go yn yr haf 2011.

Adolygiad ymgysylltu cymunedol

Comisiynwyd Datblygu Cymunedol Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru ar y cyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i wneud adolygiad cynhwysfawr o weithgareddau ymgysylltu cymunedol yn ardal y parc. Paratowyd asesiad bwrdd gwaith o brif ddogfennau polisi corfforaethol yr awdurdod a buom yn hwyluso cyfarfod grŵp ffocws o staff hŷn i archwilio eu hamcanion ymgysylltu. Cyhoeddwyd adroddiad ar y cyd yn Ionawr 2011 a gafodd dderbyniad da gan y corff comisiynu.

Cynnig gwasanaeth dwyieithog

Rydym wedi mabwysiadau ail Gynllun laith Gymraeg i ddelio â'r cyfnod o 2010 i 2013. Mae'r cynllun newydd yn mapio'r gweithredu angenrheidiol i ddarparu'n holl wasanaethau yn ddwyieithog.

Gweithio â phartneriaid

Cynhaldedd Genedlaethol Cymorth Cynllunio, Caerdydd, Ebrill 2010

Cyllid craidd

Caiff Cymorth Cynllunio Cymru gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru. O Ebrill 2011 bydd ein grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu gyda £15,000 ychwanegol i £135,000.

Mae'r grant craidd yn talu am staffio, llety a chostau eraill sydd eu hangen i ddosbarthu ein cyngor sylfaenol a'n gwasanaethau gwybodaeth. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithio gydag amrediad o sefydliadau partner eraill i gynyddu ein heffaith, i gynnal ein cyllid craidd presennol ac i godi incwm ychwanegol trwy brosiectau sydd wedi eu hariannu.

Cynhadledd Genedlaethol 2010

Cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol Cymorth Cynllunio 2010, dan nawdd Cymorth Cynllunio Cymru, yng Nghaerdydd ar Ebrill 29ain a 30ain 2010. Daeth y gynhadledd â staff cymorth cynllunio, gwirfoddolwyr ac ymddiredolwyr at ei gilydd gyda chynrychiolaeth o grwpiau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig. Yn y gynhadledd cafwyd araith gan Jane Davidson, Gweinidog Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ynghyd â chyfres o weithdai, a gafodd dderbyniad da, yn delio ag amrywiaeth eang o bynciau. Roedd y gynhadledd yn canolbwyntio ar sut mae teulu'r DU o wasanaethau cymorth cynllunio yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Llundain yn ymgysylltu'n barod â'u cymunedau, a sut y gallwn ddysgu gan eraill a gwneud yn well yn y dyfodol. Rhaid rhoi diolch arbennig i Kelvin a'r tîm staff a gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru a weithiodd mor galed i wneud y gynhaldedd yn llwyddiant mawr; roedd yn esiampl gadarn o weld cymuned yn dod at ei gilydd i wneud pethau da.

Sefydliadau partner

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gydag ystod o sefydliadau ar lefelau gwahanol o ddylanwad ac ar draws pynciau ac ardaloedd daearyddol gwahanol.

<u>Partneriaid strategol</u>

- Llywodraeth Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

<u>Partneriaid rhaglen</u>

- Un Llais Cymru
- Cymunedau yn Gyntaf

<u>Partneriaid Prosiect</u>

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Anabledd Cymru
- Datblygu Cymunedol Cymru

Adeiladu ein sefydliad

Bwrdd Rheoli

Mae Bwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru yn sicrhau bod y sefydliad yn cadw at ei amcanion elusengar ac y rheolir yr arian yn effeithlon. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol bob tri mis, gyda chyfarwyddwyr ymddiriedol mewn lleoliadau ledled Cymru ac yn dod o wahanol sectorau yn cynnwys llywodraeth leol, ymgynghoriaethau ac academia. Enwebir un cyfarwyddwr gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru. Cier rhestr o'r bobl sydd wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwyr ar y Bwrdd Rheoli dros y flwyddyn ddiwethaf yn Atodiad 2.

Dros y flwyddyn dywedwyd ffarwél ag un cyfarwyddwr, Kathryn Beard a rhoesom groeso i John Mattocks fel cyfarwyddwr newydd ar y Bwrdd. Mae gennym strategaeth gadarn yn ei lle i adnewyddu ac i recriwtio ar gyfer y Bwrdd ac mae pecyn gwybodaeth a recriwtio cynhwysfawr ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn ymuno â ni yn: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/board-recruitment

Y tîm staff

Arweinir Cymorth Cynllunio Cymru gan Brif Weithredwr sy'n atebol i'r Bwrdd Rheoli am gynnal y gyfundrefn a rheoli'r staff. Mae Cynllunydd a Rheolwr Achosion yn gyfrifol am y Llinell Gymorth, yn cynnwys cyfeirio ymlaen at wirfoddolwyr, a datblygu'r rhwydwaith o wirfoddolwyr ledled Cymru.

Ym mis Hydref llynedd bu i ni recriwtio Swyddog Datblygu a Hyfforddi i ddatblygu ein rhaglen gwaith allgymorth gyda chymunedau lleol ac i gydlynu ein gweithgareddau hyfforddi. Mae Swyddog Gweinyddol ac Ariannol rhan-amser yn cefnogi'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r staff.

Rydym nawr yn recriwtio ar gyfer swydd newydd sef Cynorthwydd Cynllunio i gymryd y galwadau Llinell Gymorth a chynyddu canran y cyfeiriadau achos i wirfoddolwyr.

Gwneud mwy gyda'n gwirfoddolwyr

Recriwtio gwirfoddolwyr

Rydym wedi croesawu ugain gwirfoddolwr newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n rhoi rhwydwaith o bron i gant o wirfoddolwyr ymroddedig. Rydym yn dibynnu ar wirfoddolwyr profiadol i gefnogi'n gwasanaethau gwaith achos a'n gwasanaethau hyfforddi. Rydym hefyd yn croesawu gwirfoddolwyr o'r gymuned o gefndiroedd heb brofiad cynllunio i gynorthwyo â gweithgareddau eraill megis allgymorth, digwyddiadau a marchnata.

Rydym bob amser yn dacw golwg am wirfoddolwyr newydd felly os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli eich sgiliau cynllunio ac ymgysylltu'r gymuned ewch i www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering i ddarganfod mwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi darparu cyfleoedd lleoliad yn y swyddfa i dair cynllunydd graddedig sy'n chwilio am brofiad cyflogaeth go iawn yn amgylchiadau anodd y farchnad. Tra'n darparu cefnogaeth hanfodol i'r tîm staff, bu'r gwirfoddolwyr swyddfa, Sarah Hall, Lorna Duggan ac Angharad Hobbs yn ennill profiad gwaith mewn swyddfa gynllunio brysur ynghyd â gwybodaeth o bolisi cynllunio a materion datblygu rheolaeth. Rydym yn falch bod y tair ohonynt wedi mynd ymlaen i gael swyddi parhaol diogel yn y maes cynllunio.

Rhai o brofiadau ein gwirfoddolwyr

Gwyddom oddi wrth ein gwirfoddolwyr bod gwirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru yn rhoi persbectifau newydd a defnyddiol ar ymrwymiad y cyhoedd yn y broses gynllunio. Mae gwirfoddolwyr yn parhau i adrodd bod y profiadau a gawsant yn gyson o ddefnyddiol pan y'i defnyddir yn y gweithle.

Angharad Hobbs: *"Ar ôl gorffen fy MSc ym Mhrifysgol Caerdydd teimlwn yn gryf nad oedd gennyf ddigon o brofiad cynllunio ymarferol. Roeddwn wrth fy modd pan gefais gynnig lle fel gwirfoddolwr swyddfa am dri mis gyda Chymorth Cynllunio Cymru. Yn ystod fy lleoliad cefais gyfle i ddysgu sgiliau newydd a diweddaru fy ngwybodaeth am ddatblygiadau diweddar mewn rheoli datblygiad a pholisi cynllunio. Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n chwarae rhan allweddol yn helpu'r cyhoedd i ymwneud mwy â'r drefn cynllunio. Rwy'n falch iawn o fod wedi cyfrannu at hynny."*

Ste James: *"Mae gwaith Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu mewnwelediad i'r penderfyniadau cynllunio rydw i'n ymwneud â hwy yn ddyddiol yn fy awdurdod cynllunio fy hun, ond o agwedd y cyhoedd. Mae'r agwedd hon o gynllunio a'r penderfyniadau a wnawn yn bwysig tu hwnt gan fod cymaint o'r hyn a wnawn yn gallu cael ei gamddehongli a'i gamddeall, un a oherwydd nad ydym wedi esbonio'n hunain mewn iaith blaen neu oherwydd nad ydym wedi cymryd yr amser i ddarparu esboniadau o'n penderfyniadau."*

"Mae gwirfoddoli'n werthfawr iawn oherwydd mae'n caniatáu i mi, yn fy ngwaith bob dydd, i asesu fy ngweithredu fy hun ac i ddarparu'r esboniad hwnnw yn y gobaith y bydd gan y cyhoedd well ddealltwriaeth ac y gallant deimlo'n hyderus yn cyfrannu at y broses gynllunio. Mae'n rhaid gweld cyfathrebu rheolaidd ac eglur ar y materion gan awdurod cynllunio fel sail i ddod â thryloywder ac eglurder i broses a allai fod yn gymhleth ac yn hawdd ei chamddeall."

Gweithgareddau'r gwirfoddolwyr

Rydym yn cadw cofnod manwl o weithgareddau'r gwirfoddolwyr i gofnodi'r amser maent yn ei dreulio ar y gwahanol weithgareddau y maent yn eu gwneud ar ran Cymorth Cynllunio Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'i gilydd, mae'n gwirfoddolwyr wedi cyfrannu mwy na chwe chant o oriau o'u hamser i helpu i godi dealltwriaeth ac ymrwymiad y cyhoedd mewn cynllunio, a rhoddwyd tri chant o oriau'n ychwanegol gan wirfoddolwyr ar leoliad yn y swyddfa i gefnogi'r sefydliad.

Rheolaeth y gwirfoddolwyr

Rydym wedi ailstrwythuro gweithdrefnau rheolaeth achosion gyda'r amcan o gynnig mwy o gyfleoedd i wirfoddolwyr i gymryd gwaith achos ymlaen. Bellach mae gennym dîm o dros ddeugain o wirfoddolwyr gwaith achos yn delio â 70% o'r holl achosion sy'n deillio o'r Linell Gymorth.

Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i gydymffurfio ei weithdrefnau rheolaeth o wirfoddolwyr gyda'r gofynion yn safonau Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr. Gwnaethom gofrestru ar y cynllun ym Mawrth 2011 ac mae gennym gynllun gweithredu i gyflawni achrediad erbyn Mawrth 2012.

Gwirfoddolwyr yn ymadael

Diolch yn fawr a phob lwc i'r gwirfoddolwyr sy'n gadael: Marianne Auzanet, Steve Cranston, Rhian Brimble, Ken Richards, Kate Powell, Paul Slater, Mark Clayton Cottaray, Michael Hughes, Sebastian Loyn, Daphne Thomas, Robert Storr, Stephen Agyeman-Kuma, Victoria Phillips, Lucy Hill, Xi Zhang, Pedro Garcia, Mutahir Awan, Rachel Robertson a Huw Thomas.

Hyfforddiant a rhwydweithio gwirfoddolwyr

Dros y flwyddyn rydym wedi darparu tair noson gyda'r hwyr ar gyfer gwirfoddolwyr newydd a phresennol. Cynlluniwyd y nosweithiau hyn i gyflwyno gwirfoddolwyr newydd i'n gwerthoedd, polisïau a'n ymarferion ac i roi cyfle i'n gwirfoddolwyr presennol i adnewyddu eu sgiliau.

Ym Medi 2010, rhoddodd Cymorth Cynllunio Cymru gomisiwn i Cyfranogaeth Cymru i ddarparu hyfforddi hwyluso i dîm o wyth o wirfoddolwyr oedd â diddordeb mewn helpu staff i draddodi ein rhaglen hyfforddi ar gynllunio. Roedd yr hyfforddi'n canolbwyntio ar sgiliau cyflwyno, technegau hwyluso a dulliau o ddelio â chynulleidfaoedd anodd.

Roedd yr hyfforddiant yn llwyddiannus ac mae aelodau o'r tîm hyfforddi wedi cychwyn cynorthwyo mewn, a thraddodi, digwyddiadau hyfforddi 'byw' ar ein rhan.

Rydym nawr yn gweithio i ddarparu rhaglen o hyfforddiant penodedig ar gyfer gwirfoddolwyr dros y flwyddyn sydd i ddod, gyda phwyslais ar ddatblygiad cymunedol a sgiliau hyfforddi.
Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cymorthdaliadau i wirfoddolwyr i fynychu digwyddiadau a chyrsiau hyfforddiant ar gynllunio a ddarperir gan Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.

Datblygu ein gwasanaethau hyfforddi

Nawr bod Swyddog Datblygu ac Hyfforddi gennym i gydlynu rhaglenni hyfforddi cyfredol a datblygu rhai newydd, rydym yn archwilio opsiynau posibl i ariannu gweithgareddau hyfforddi yn y dyfodol. Mae strategaeth hyfforddi a fabwysiadwyd yn tywys ymestyniad ein gweithgareddau hyfforddi hyd at Fawrth 2013, ac erbyn hynny ein hamcan yw bod yn ddarparydd da o hyfforddiant cynllunio o ansawdd uchel. Mae'r strategaeth yn nodi mai ein prif dargedau hyfforddiant yw grwpiau difreintiedig, grwpiau cymuned, proffesiynolwyr cynllunio a rhanddalwyr allweddol.

Codi ein proffil

Gweithredir strategaeth farchnata i helpu adeiladu'n proffil ymysg pump cynulleidfa darged. Y rhain yw Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau cynllunio lleol, cyfundrefnau rhanddalwyr a chymunedau difreintiedig.

Tua hanner ffordd trwy 2010, rhoddodd Cymorth Cynllunio Cymru dystiolaeth yn sesiwn agoriadol ymholiad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynlluniad Cenedlaethol Cymru i gynllunio. Cyflwynasom bapur materion cyn yr ymholiad a phapur o dystiolaeth atodol yn y camau terfynol; gellir gweld y ddau yn www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/about-us/consultation-responses

Edrych ymlaen

Dros y flwyddyn flaenorol, gyda chefnogaeth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru rydym wedi gallu datblygu llif gwaith cyfredol a datblygu mewn ardaloedd newydd o weithredu.

Yn ogystal â darparu Llinell Gymorth sy'n cynghori rydym bellach yn traddodi hyfforddiant cynllunio ar gyfer ystod gynyddol o gynulleidfaoedd, yn cyhoeddi pamffledi a chanllawiau cyngor, yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda gwaith ymgysylltu cymunedol gweithredol, yn gweithio â phartneriaid i ymgymryd â chomisiynau prosiect, yn marchnata'n gwasanaethau yn weithredol i ystod o gynulleidfaoedd targed ac yn ymateb i ymgynghoriaethau polisi cenedlaethol ar ran defnyddwyr y system gynllunio.

Dros y flwyddyn i ddod rydym yn gweld Cymorth Cynllunio Cymru…

… yn cymryd mwy o ran prif-ffrwd yn y system Gynllunio Gymreig. Byddwn yn ymateb trwy barhau i adeiladu gallu ein tîm staff a'n rhwydwaith o wirfoddolwyr yn unol â'n cynllun busnes ar gyfer 2011 – 2014 sy'n gosod ein strategaeth ar gyfer twf.

… yn parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi cynllunio Cymreig trwy ymateb i ymgynghoriadau a thrwy gynrychiolaeth ar Fforwm Cynllunio Cymru a grwpiau allweddol eraill.

…yn lobïo Aelodau'r Cynulliad yn llwyddiannus am adnoddau ychwanegol, yn defnyddio datganiad byr o'n hamcanion a'n dulliau o weithio i adeiladu dealltwriaeth eglurach o'r hyn a wnawn a'r potensial a gynigiwn i helpu i adeiladu system gynllunio fwy teg a thryloyw yng Nghymru.

… yn ymgysylltu mewn gwaith rhagweithiol â chymunedau ffiniol trwy bartneriaethau allgymorth arloesgar, gyda'r bwriad o ymgymryd â gwaith enghreifftiol a ellir ei ailwneud mewn ardaloedd eraill.

… yn marchnata ein gwasanaethau i'r rhai sydd â'u hangen fwyaf, gan fwriadu cynyddu canran galwyr â chymhwyster uchel i'r Llinell Gymorth.

… yn archwilio opsiynau cyllid i ddatblygu rhaglen addysg cynllunio ar gyfer pobl ifanc.

… yn cyflawni achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

… yn annog gwirfoddolwyr, yn enwedig gwirfoddolwyr cymunedol, i gyfrannu hyd yn oed yn fwy ar draws pobl adran o'n gwaith, yn enwedig hyfforddiant.

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol 2010/11

Datganiad o weithgareddau ariannol, y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31ain 2011

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2011 £	Cyfanswm 2010 £
Adnoddau'n dod i mewn				
Gweithgareddau er hyrwyddo amcanion yr elusen				
Grantiau a dderbyniwyd	7,000	120,000	127,000	109,808
Rhoddion	128	-	128	145
Digwyddiadau codi arian	162	-	162	150
Gwerthiant cyhoeddiadau	-	-	-	162
Llog banc a dderbyniwyd	106	-	106	83
Incwm arall	145	-	145	420
Ffioedd yn dderbyniadwy	3,804	2,897	6,701	47,463
Cyfanswm adnoddau'n dod i mewn	**11,345**	**122,897**	**134,242**	**158,231**
Adnoddau a wariwyd				
Gwariant elusennol uniongyrchol	-	142,552	142,552	132,046
Rheolaeth a gweinyddiaeth	1,942	-	1,942	2,247
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	**1,942**	**142,552**	**144,494**	**134,293**
Adnoddau net yn dod i mewn ar gyfer y cyfnod	**9,403**	**(19,655)**	**(10,252)**	**23,938**
Cronfeydd a gariwyd ymlaen	39,826	30,234	70,060	46,122
Cronfeydd i'w cario ymlaen	**49,229**	**10,579**	**59,808**	**70,060**

Cymorth cynllunio cymru mantolen ar 31 Mawrth 2011

	2011 £	2010 £
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol	1,053	682
Asedau cyfredol		
Stociau	300	300
Dyledwyr	2,661	5,018
Arian parod yn y banc	58,810	66,947
	61,771	72,265
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(3,016)	(2,887)
Asedion cyfredol net	58,755	69,378
Cyfanswm yr asedion namyn y dyledion cyfredol	**59,808**	**70,060**
	=====	=====
Cronfeydd		
Anghyfyngedig	49,229	39,826
Cyfyngedig	10,579	30,234
Cronfeydd yr aelodau	**59,808**	**70,060**
	=====	=====

Cymerwyd y ffigyrau uchod o gyfrifon drafft 2010/11, sydd i'w harchwilio. Mae'r cyfrifon llawn ar gael ond i chi ofyn.

Mae Bwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru yn arolygu rheolaeth ariannol y sefydliad gyda'r bwriad o gefnogi a chynyddu Cymorth Cynllunio Cymru ar sail gadarn ariannol. Mae gan y Bwrdd bolisi arian-wrth-gefn sydd wedi ei gynllunio i gynnal lefel gall o arian-wrth-gefn i barhau i weithredu, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r tablau yn cyfeirio at gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae hyn yn gwahaniaethu rhwng cronfeydd a ellir eu gwario ar eitemau penodol yn unig sydd â chysylltiad ag ariannu prosiect fel arfer, a'r rhai lle nad oes unrhyw gyfyngiad ar eu defnydd.

Atodiad 2: Cyfarwyddwyr a staff

Y Bwrdd Rheoli

Tony Humphreys, Cadeirydd hyd at Orffennaf 2010 (cynllunydd, wedi ymddeol)

Lucie Taylor, Cadeirydd o orffennaf 2010 (Cyngor Sir Casnewydd)

Gayle Wootton, Is-Gadeirydd o Hydref 2010 (Llywodraeth Cymru)

Owain Wyn, Trysorydd (ymgynghorydd cynllunio ac adnewyddu)

Peter Kingsbury, Cadeirydd Pwyllgor Staffio ac Archwilio (Cyngor Caerdydd)

Ian Horsburgh, Swyddog Cyhoeddusrwydd (cynllunydd, wedi ymddeol)

Allan Archer (cynllunydd, wedi ymddeol)

Kathryn Beard (Llywodraeth Cynulliad Cymru) - ***hyd at Fehefin 2010***

Laura Dagless (gwirfoddolwraig Cymorth Cynllunio Cymru)

James Griffiths (Cymdeithas Cynghorau Cymunedau Lleol)

Neil Harris (Ysgol Gynllunio Tref a Rhanbarth, Caerdydd)

Katherine Hughes (ymgynghorydd datblygiad ac ymchwil cymunedol)

John Mattocks (cynllunydd, wedi ymddeol) - ***o Hydref 2010***

Kathleen Norton (cynllunydd, wedi ymddeol)

Chris Potts (enwebai SCTB yng Ngymru) - ***o Awst 2010***

Anna Prescott (enwebai SCTB yng Ngymru) - ***i Orffennaf 2010***

Y tîm staff

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr

James Davies, Cynllunydd a Rheolwr Achosion

Marika Fusser, Gweithiwr Datblygu Gogledd a Chanolbarth Cymru – ***i Orffennaf 2010***

Maria Allen, Swyddog Hyfforddi – ***i Orffennaf 2010***

Sioned Pearce, Swyddog Datblygu a Hyfforddiant - ***o Dachwedd 2010***

Kay Sharman, Swyddog Ariannol a Gweinyddiaeth